| Heb Bolisi Cadw Hawliau Awdur | Gyda Pholisi Cadw Hawliau Awdur |
| --- | --- |
| ➢ Bydd perchnogaeth ar eu Gweithiau Academaidd yn cael ei neilltuo i'r awduron gan y Brifysgol.[1] | ➢ Bydd perchnogaeth ar eu Gweithiau Academaidd yn cael ei neilltuo i'r awduron gan y Brifysgol. |
| ➢ Pan gaiff gwaith ei dderbyn ar gyfer ei gyhoeddi, mae cyhoeddwyr yn gofyn i'r hawlfraint ar gyfer y gwaith gael ei drosglwyddo iddynt hwy eu hunain. | ➢ Bydd yr awduron yn rhoi trwydded anghyfyngedig, ddi-droi'n-ôl, byd-eang i'r Brifysgol ("**Trwydded Mynediad Agored y Brifysgol**") i wneud eu gweithiau academaidd ar gael yn gyhoeddus yn storfa ddigidol y Brifysgol, a hynny ar ffurf AAM/ôl-argraffiad, ac o dan delerau trwydded Creative Commons Attribution (CC-BY) neu drwydded debyg. |
| ➢ Pan fydd y Gweithiau Academaidd wedi'u hadneuo yn storfa ddigidol y Brifysgol ar ffurf llawysgrif awdur wedi'i dderbyn (AAM) / ôl-argraffiad[2], mae'r Brifysgol dan rwymedigaeth i gadw at unrhyw gyfnodau embargo a thelerau trwydded a bennir gan y cyhoeddwr cyn gwneud y gwaith ar gael i'r cyhoedd drwy Borth Ymchwil y Brifysgol. | ➢ Nid yw'r Brifysgol dan rwymedigaeth i gadw at unrhyw gyfnodau embargo ar ôl i'r Gweithiau Academaidd gael eu hadneuo yn ystorfa ddigidol y Brifysgol. |
| ➢ Mae'n rhaid i unrhyw un - gan gynnwys yr awduron eu hunain - ofyn am ganiatâd gan y cyhoeddwr i ddefnyddio'r gweithiau hynny wrth addysgu neu er mwyn eu rhannu ar ffurf AAM, cyn diwedd unrhyw gyfnod embargo. | ➢ Gall unrhyw un - gan gynnwys yr awduron eu hunain - ddefnyddio'r Gweithiau Academaidd hynny wrth addysgu neu i'w rhannu ar ffurf AAM yn unol â'r drwydded CC BY ar unrhyw adeg ar ôl iddynt gael eu derbyn i'w cyhoeddi. |
| ➢ Mae'r cyhoeddwyr yn gallu ailddefnyddio'r cynnwys a neilltuwyd iddynt o'r Gweithiau Academaidd hynny fel y mynnon nhw.<br><br>➢ Mae cyhoeddwyr yn gallu neilltuo a throsglwyddo hawlfraint y Gweithiau Academaidd hynny i drydydd partïon fel y mynnon nhw. | ➢ Mae'r Brifysgol yn cadarnhau hawl yr awdur i gadw hawlfraint, ac mae Trwydded Mynediad Agored y Brifysgol yn rhwymol ar unrhyw un sy'n dod i berchen ar hawliau'r Gwaith Academaidd. Bydd unrhyw drosglwyddiad o'r Gwaith Academaidd i gyhoeddwr bob amser yn ddarostyngedig i delerau Trwydded Mynediad Agored y Brifysgol. |

[1] Gwaith a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd i'w gyhoeddi mewn erthyglau neu bapurau cynadleddau gyda rhif ISSN, neu a gyhoeddwyd ar blatfform cyhoeddi.

[2] Y fersiwn ddrafft yn dilyn unrhyw newidiadau academaidd trwy adolygiad gan gyd-academyddion ond cyn y fersiwn gyhoeddi derfynol gyda ffurfdeip y cyhoeddwr, ac ati.